Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

**www.hefcw.ac.uk**

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
**Higher Education Funding**
**Council for Wales**

hefcw

# Datganiad i'r wasg

**Dyddiad:** 20 Gorffennaf 2006

**Teitl:** **Hwb ariannol gwerth £5 miliwn i ymchwil yng Nghymru**

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi dyrannu £5m o arian ychwanegol i sefydliadau addysg uwch Cymru i roi hwb pellach i'w paratoadau ar gyfer yr Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) nesaf. Mae hyn yn golygu bod CCAUC wedi rhoi £8m o arian ychwanegol ers mis Rhagfyr 2005 a bydd hyn o gymorth mawr i'r sefydliadau wrth iddynt barhau i baratoi eu cyflwyniadau. Mae'r dyddiad cau ym mis Tachwedd 2007. Bydd yr arian hefyd yn helpu i roi'r sector addysg uwch mewn sefyllfa gryfach i gefnogi strategaeth ddatblygol y Cynulliad ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru.

Ymarfer ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yw'r YAY, a gynhelir nesaf yn 2008. Fe'i seilir ar gyflwyniadau a wneir ym mis Tachwedd 2007 a'i nod yw asesu ansawdd yr ymchwil sy'n cael ei wneud yn y sector addysg uwch. Bydd perfformiad cryf gan y sefydliadau Cymreig yn 2008 yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i Gymru mewn perthynas â gweithgarwch ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol.

Gan ei fod mor bwysig ar gyfer adfywio cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru, mae gwella perfformiad ymchwil y sector addysg uwch yn un o'r targedau allweddol yn *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth dymor-hir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Cynulliad wedi cytuno i ddyrannu'r £5m dan sylw o'r cyllid sydd ar gael i gefnogi *Ymgeisio'n Uwch* a rhaid ei ddefnyddio mewn ffordd strategol. Felly mae CCAUC wedi dyrannu'r cyfan yn ddetholus i'r sefydliadau hynny a fydd yn ei dyb ef yn fwyaf tebygol o elwa ar yr arian newydd yn ymarfer 2008.

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC:

“Mae CCAUC yn hynod falch ei fod wedi llwyddo i ddod i’r cytundeb hwn sy’n sicrhau bod swm sylweddol o arian ychwanegol ar gael ar adeg bwysig cyn yr Ymarfer Asesu Ymchwil nesaf. Fel yn achos y dyraniad ychwanegol o £3m ym mis Rhagfyr 2005, roeddem yn awyddus i sicrhau y câi’r arian ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac felly rydym unwaith eto wedi targedu’r arian yn strategol at y sefydliadau hynny sydd, yn ein barn ni, yn y sefyllfa orau i elwa ar y buddsoddiad. Rydym yn edrych ymlaen at weld perfformiad cryf gan y sector addysg uwch yng Nghymru yn 2008.”

Eglurwyd arwyddocâd y dyraniad yng nghyd-destun yr agenda ehangach ar gyfer addysg uwch yng Nghymru gan Syr Roger Williams, Cadeirydd y Cyngor:

“Prif flaenoriaeth cyllid *Ymgeisio’n Uwch* yw ailgyflunio’r sector addysg uwch yng Nghymru drwy gyfuno sefydliadau a thrwy gydweithio sylweddol a chynaliadwy. Ni fydd y Cyngor yn llaesu dwylo wrth geisio’r math o newid strwythurol yn y sector a fyddai, yn anad dim, yn ei gwneud hi’n bosibl i gwrdd ag anghenion cymunedau Cymru yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Serch hynny, mae newid strwythurol o’r fath yn cymryd amser ac rydym yn ffodus bod y Gweinidog wedi ein hannog i ystyried ffyrdd strategol eraill o ddefnyddio’r cyllid *Ymgeisio’n Uwch* i gefnogi’r nod ehangach o wella cyfraniad y sector addysg uwch at fywyd ac economi Cymru.”

Diwedd.

**Cysylltiadau i’r cyfryngau**

**CCAUC**
Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280

**NODIADAU I OLYGYDDION**

**Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY)**

Ymgymerwyd â’r Ymarfer Asesu Ymchwil diwethaf yn y DU yn 2001. Fel ag o’r blaen, mae ymarfer 2008 yn cael ei gydgysylltu ar raddfa’r DU. Gellir cael manylion pellach yn www.rae.ac.uk.

Mae manylion y dyraniad hwn ar gael yn adran cylchlythyron gwefan CCAUC (www.hefcw.ac.uk) yng nghylchlythyr W06/28HE.

***Ymgeisio'n Uwch***

*Ymgeisio'n Uwch* yw strategaeth dymor-hir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch. Gellir llwytho'r ddogfen i lawr o wefan y Cynulliad drwy ddilyn y cyswllt canlynol: www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/higher/reachinghigher-e.pdf

**Cefndir - CCAUC**

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.